

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Gweithdrefn Gofalwyr Ifanc a Pherson Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal

Cwmpas a Diben

- Mae'r Coleg wedi ymrwymo i gyflawni deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n cynnwys yr angen iddynt fod yn iach, cadw'n ddiogel, mwynhau eu cwrs astudio a llwyddo yn y Coleg.
- Os yw dysgwyr yn rheoli eu bywydau personol, maent yn fwy tebygol o lwyddo'n addysgiadol a chyfrannu ar lwyddiant y Coleg yn gyffredinol.
- Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn gofalu am rywun yn ei deulu sydd â salwch corfforol neu iechyd meddwl hirdymor, anabledd, neu'n camddefnyddio sylweddau, cydnabyddir y gallai fod angen cymorth ychwanegol arno i'w helpu i wneud y mwyaf o'r Coleg.

Cymhwysiad

- Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i ddysgwyr y Coleg sy'n astudio ar unrhyw gampws coleg. Mae'r weithdrefn hefyd yn cynnwys y dysgwyr hynny sydd ar leoliad fel rhan o'u cwrs, Prentisiaethau a dysgwyr Dysgu Seiliedig ar Waith.

Monitro ac Adolygu

- Caiff y broses hon ei monitro drwy'r Pwyllgor Diogelu a bydd yn cael ei hadolygu deirgwaith y flwyddyn i'r pwyllgor graffu arni.

Diffiniadau

Dysgwr – mae'r term 'dysgwr' ar gyfer y weithdrefn hon yn cynnwys dysgwyr y Coleg sy'n astudio ar unrhyw gampws Coleg. Mae'r weithdrefn hefyd yn cynnwys y Dysgwyr hynny sydd ar leoliad fel rhan o'u cwrs, Prentisiaethau a dysgwyr Dysgu Seiliedig ar Waith.

Gofalwr Ifanc - Mae Gofalwr Ifanc yn berson ifanc rhwng 14 a 25 oed sy'n gofalu am ffrind neu aelod teulu, heb gyflog, na allai ymdopi heb eu cymorth. Gall gofalu gynnwys gwneud tasgau yn y cartref, gofal personol, cymorth emosiynol, cymorth cyfathrebu neu ofalu am frodyr a chwiorydd a nhw eu hunain. Mae lefel cyfrifoldeb Gofalwr Ifanc yn aml yn amhriodol i'w

Rhif Adolygu:	2
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Diwethaf:	
Dyddiad Adolygu Nesaf	07/09/24

hoedran ac ar lefel sydd y tu hwnt i helpu gyda thasgau yn y cartref yn unig, sy'n rhan arferol o dyfu i fyny.

Person Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal, Derbyn gofal, LAC, Pobl Ifanc sydd wedi eu Cymhwyso, a Phlant sy'n Gadael Gofal - diffinnir unrhyw ddysgwr a nodwyd ei fod wedi'i nodi o dan Ran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn y weithdrefn hon fel 'pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal'. Mae'r termau hyn yn berthnasol i bobl ifanc sydd mewn gofal ar hyn o bryd, yn gadael gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn 18 oed hŷn.

Plentyn – yn unol â Deddf Plant 1989, bydd y Coleg yn ystyried unrhyw berson ifanc o dan 18 oed yn blentyn.

Oedolyn Bregus – person 18 oed neu hŷn a allai fod angen gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oedran neu salwch ac sy'n methu â gofalu amdano'i hun, neu sy'n methu ag amddiffyn ei hun rhag niwed sylweddol neu gamfanteisio difrifol.

Oedolyn mewn Risg - person 18 oed neu hŷn sy'n profi neu sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso; angen gofal a chymorth (p'un a oes unrhyw awdurdod yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio); ac o ganlyniad i'r anghenion hynny, nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag y cam-drin neu'r esgeulustod na'r risg ohono.

Anghenion Dysgu Ychwanegol - person rhwng 0-25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (p'un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Cynghorydd Personol – person a benodir gan yr awdurdod lleol yn 17/18 oed i gefnogi'r person ifanc sy'n gadael gofal i wneud dewisiadau am ddysgu a gwaith ac i gyfeirio at gymorth allanol pellach. Ar hyn o bryd gall y Cynghorydd Personol fod yn aelod y gellir ymddiried ynddo o deulu'r person ifanc neu'n ffrind, ond yn fwy cyffredin, mae wedi ei gyflogi yn y rôl gan yr Awdurdod Lleol. Mewn rhai achosion, mae'r Gweithiwr Cymdeithasol sy'n gyfrifol am y person ifanc yn 16 oed yn parhau fel Cynghorydd Personol.

Cynllun Addysg Personol (PEP) - Dyma'r cynllun a luniwyd ar gyfer dysgu yn yr ysgol neu'r coleg. Nod y cynlluniau hyn yw sefydlu targedau a chymau gweithredu clir i ymateb yn effeithiol i anghenion pob plentyn a darparu cofnod parhaus o'u cyflawniadau. Yn ogystal, mae Cynllun Addysg Personol yn gyfle i wrando ar blant, cofnodi eu gobeithion a'u pryderon a dangos eu dyheadau datganedig yn glir. Yn ddelfrydol, dylai'r PEP gyfrannu at ddatblygu Cynllun Llwybr yn 16 oed.

Rhif Adolygu:	2
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Diwethaf:	
Dyddiad Adolygu Nesaf	07/09/24

Adnabod Gofalwr Ifanc

Oni bai bod y Coleg yn cael cyngor am amgylchiadau cartref dysgwyr, mae perygl i Ofalwyr Ifanc gael eu hadnabod oherwydd yr agweddau negyddol ar eu hymddygiad neu eu gwaith. Mae rhai Gofalwyr Ifanc yn poeni am fwlio neu ymyrraeth ym mywyd eu teulu ac fe allant guddio eu rôl oddi wrth eu cyfoedion ac athrawon.

Dyma rai o'r dangosyddion a allai awgrymu bod gan ddysgwr gyfrifoldebau heb eu cydnabod:

- Bod yn hwyr yn rheolaidd neu absenoldeb anawdurdodedig, o bosibl yn cynyddu.
- Blinder yn y coleg.
- Ymateb di-drefn i waith cartref gan beidio â chwblhau tasgau, cyflwyno tasgau'n hwyr neu ddiffyg cydymffurfio â thasgau wedi eu gosod.
- Diffyg canolbwyntio, gorbryder neu boen meddwl.
- Tangyflawni gallu posibl.
- Problemau ymddygiadol, yn enwedig ymatebion amhriodol, o bosibl yn deillio o ddiecter neu rwystredigaeth.
- Ychydig neu ddim cyfeillgarwch gyda chyfoedion, ond gyda pherthynas dda ag oedolion o bosib ac yn cyflwyno'n aeddfed iawn i'w hoedran.
- Dioddefwr bwlio, sydd efallai'n gysylltiedig ag anabledd neu gyflwr iechyd aelod o'r teulu, e.e. Camddefnyddio sylweddau neu oherwydd nad yw cyfoedion yn gweld bod Gofalwr Ifanc yn gwisgo'r dillad diweddaraf.
- Diffyg diddordeb mewn gweithgareddau allgyrsiol, yn enwedig ar ôl y coleg.
- Diffyg diddordeb rhieni oherwydd diffyg presenoldeb mewn cyfarfodydd rhieni.

Gall yr holl ddangosyddion posibl a grybwyllir fod yn ddangosyddion amrywiaeth o broblemau, rhai nad ydynt yn gysylltiedig â gofalu, ond wrth ddelio ag unrhyw ddysgwr sy'n arddangos unrhyw un o'r arwyddion dylai staff ystyried gofyn i'r dysgwr a yw'n helpu i ofalu am rywun gartref.

Dylid rhoi gwybod i dîm llesiant y Coleg am unrhyw bryderon am ddysgwr y gellir ei ystyried yn Ofalwr Ifanc neu Berson Ifanc sy'n Derbyn Gofal sydd heb ei adnabod eto, drwy gyfeirio at y porth staff neu drwy Banel Cymorth y Gyfadrn. Bydd y tîm llesiant, ochr yn ochr â thiworiaid cyrsiau a thimau addysgu, yn ceisio cefnogi a chasglu gwybodaeth a fydd yn helpu i sefydlu;

Rhif Adolygu:	2
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Diwethaf:	
Dyddiad Adolygu Nesaf	07/09/24

- A yw'r dysgwr yn byw gydag aelod o'r teulu sydd ag anabledd neu salwch iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor.
- A oes gan y dysgwr gyfrifoldeb dros ofalu am y person hwnnw y tu hwnt i berthnasoddedd rhyng-bersonol arferol mewn sefyllfa deuluol ofalgar.
- A yw'r teulu mewn cysylltiad â gwasanaeth cymorth a allai helpu i leihau eu dibyniaeth ar y dysgwr.

Bydd rhai teuluoedd yn dewis peidio â datgelu'r wybodaeth hon. Bydd unrhyw wybodaeth a gafwyd o ganlyniad i'r broses hon yn cael ei chadw ar broffil y dysgwr ar My Concern, a chaiff ei chadw'n ddiogel. Byddwn yn parchu'r hawl i breifatrwydd ac ni fyddwn ond yn rhannu gwybodaeth am Ofalwyr Ifanc a'u teuluoedd gyda phobl sydd angen gwybod er mwyn gallu helpu. Cyn rhannu gwybodaeth ag unrhyw un arall, byddwn yn gofyn am ganiatâd gan y Gofalwr Ifanc a riant.

Cymorth Coleg i Ofalwyr Ifanc a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal

Mae'r Coleg yn ymgymryd â'r darpariaethau cymorth canlynol ar gyfer dysgwyr sy'n ofalwyr ifanc neu'n Bobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal (LAYP);

- Cynhelir sesiynau codi ymwybyddiaeth, sesiynau tiwtorial a hyfforddiant staff a Llywodraethwyr.
- Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd staff yn siarad â Gofalwyr Ifanc a LAYP yn breifat ac nid o flaen eu cyfoedion.
- Dim ond gyda phobl y mae angen iddynt wybod er mwyn helpu y bydd gwybodaeth am y Gofalwr Ifanc a'u teulu neu LAYP yn cael ei rhannu.
- Mae gan Ofalwyr Ifanc yr opsiwn i gael eu rhoi mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc lleol unwaith y byddant yn bodloni'r meini prawf.
- Lle y bo'n bosibl, byddwn yn trafod terfynau amser ar gyfer gwaith cartref ac ati cyn iddynt gael eu gosod gyda meysydd cwrwclwm.
- Bydd anghenion cymorth ychwanegol ar gyfer Gofalwyr Ifanc neu LAYP sy'n ei chael yn anodd cyflawni eu potensial yn cael eu nodi a'u darparu lle y bo'n briodol ac mewn ymgynghoriad â sefydliad Gofalwyr Ifanc neu riant corfforaethol.
- Bydd dewisiadau eraill ar gyfer Gofalwyr Ifanc neu LAYP nad ydynt yn gallu mynychu gweithgareddau y tu allan i'r coleg oherwydd eu rôl gofalu yn cael eu hystyried.

Rhif Adolygu:	2
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Diwethaf:	
Dyddiad Adolygu Nesaf	07/09/24

- Byddwn yn cysylltu â gwasanaethau cymorth i sicrhau y gallwn gyfeirio teuluoedd at gymorth ychwanegol.
- Os na fydd rhiant yn gallu teithio i gyfarfodydd neu sesiynau rhieni oherwydd amgylchiadau teuluol, byddwn yn ceisio gwneud trefniadau amgen. Gall y Gofalwr Ifanc neu'r rhiant ofyn am hyn.
- Byddwn yn rhoi cyngor ynghylch sut y gall pobl ifanc fynd i'r coleg pan fo trafndiaeth yn broblem.
- Mae'r coleg yn hygyrch i rieni sydd â phroblemau symudedd a chyfathrebu a lle mae hygyrchedd y campws yn broblem, gwahodd rhieni i gampws hygyrch arall.
- Gofynnwn am adborth a syniadau gan Ofalwyr Ifanc, LAYP a'u teuluoedd.
- Sefydlu cynlluniau cymorth disgyblion unigol ar gyfer y Gofalwyr Ifanc neu'r LAYP hynny sydd ag anghenion penodol lle y bo'n briodol.
- Rydym yn caniatáu i Ofalwyr Ifanc ddefnyddio ffôn i alw adref yn ystod egwylliau ac amser cinio er mwyn lleihau unrhyw bryder a allai fod ganddynt am aelod o'r teulu.
- Bydd y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant, Cydlynwyr Llesiant a Diogelu, a'r Tîm Llesiant yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau cenedlaethol a lleol a deddfwriaeth a chanllawiau sy'n effeithio ar Ofalwyr Ifanc a'u teuluoedd.
- Cadw canran o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn a ddyrannwyd ar gyfer dysgwyr LAYP nad yw ar sail asesiad ariannol.
- Hepgor unrhyw ffioedd cofrestru ar gyfer dysgwyr sy'n LAYP.
- Os yw'n briodol, gall unrhyw ofalwr ifanc neu LAYP sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cyd-ddigwydd gael trosglwyddiad gwell i'r Coleg drwy'r tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Croesawu unrhyw blentyn, rhiant neu aelod o'r teulu sy'n dymuno trafod amgylchiadau ei deulu fel y gallwn helpu'r dysgwr i gyflawni hyd at eithaf ei allu.
- Rhoi mynediad diamod i'n Hybiau Llesiant a chymorth gan ein Swyddogion Llesiant.

Rhif Adolygu:	2
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Diwethaf:	
Dyddiad Adolygu Nesaf	07/09/24

Cyfrinachedd a Diogelu

Mae gan ddysgwyr 16-18 oed yr un hawl i gyfrinachedd ag oedolion.

Mae'r holl staff yn gweithio o fewn Polisiâu a gweithdrefnau Diogelu a Chyfrinachedd y Coleg ac ni allant gynnig cyfrinachedd llwyr i'w myfyrwyr. Dan amgylchiadau eithriadol lle gall yr aelod o staff wneud y penderfyniad i dorri cyfrinachedd, gyda chaniatâd y dysgwr neu hebdo, os oes angen. Yn yr achos hwn, defnyddir eu barn broffesiynol os:

Oes perygl y bydd y dysgwr yn niweidio ei hun neu'n cael ei niweidio.

Mae perygl i berson arall gael ei niweidio.

Mae perygl y bydd trosedd ddifrifol yn cael ei chyflawni, bygythiad mawr, neu os oes gofyn gwneud hynny, drwy Orchymyn Llys neu unrhyw beth arall sy'n ymwneud â chyfraith y tir.

Ym mhob un o'r achosion hyn bydd yr aelod o staff yn cyfeirio'r dysgwr, neu'r pryder a ddatgelir at Dîm Diogelu'r Coleg a all alw ar a dilyn y Weithdrefn Ddiogelu.

Rheoli Achos/Ffeiliau electronig/nodiadau

Bydd Swyddogion Llesiant, gan weithio gydag unrhyw ofalwyr ifanc neu LAYP, yn cadw cofnodion o'r holl gymorth ar My Concern. Bydd presenoldeb y dysgwr yn cael ei gofnodi ar Bacpac gan y gwasanaeth cwnsela.

Yn unol ag arfer gorau, cedwir cyn lleied â phosibl o gofnodion papur. Mae unrhyw gronfeydd data/meddalwedd wrth gofnodi/gweinyddu'r gwasanaeth yn cael eu diogelu gyda chyfrinair, eu hamgryptio a'u copïo wrth gefn gan ddefnyddio gweithdrefnau rheoli gwybodaeth y Coleg.

Bydd dogfennau a ffeiliau achos dysgwyr yn cael eu cadw am gyfnod o 6 blynedd o ddiwedd blwyddyn academiaidd eu cofrestriad diwethaf gyda'r Coleg.

Dulliau a Chwynion Adferol

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddulliau adferol ac mae'r rhain yn sail ar gyfer atgyweirio niwed.

Dylai dysgwyr nad ydynt yn fodlon ag unrhyw agwedd ar y Gwasanaeth Llesiant drafod eu pryderon i ddechrau gyda'r Cydlynnydd Diogelu a Llesiant. Os ydynt yn teimlo na allant wneud hynny, neu os ydynt yn teimlo nad ymdriniwyd â'u cwyn yn foddhaol, gallant gysylltu â'r Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant.

Rhif Adolygu:	2
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Diwethaf:	
Dyddiad Adolygu Nesaf	07/09/24

Os yw'r dysgwr yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol, dylid dilyn gweithdrefn gwyno'r Coleg.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i drin defnyddwyr ei wasanaethau yn deg, waeth beth fo'u hil, rhywedd, hunaniaeth rywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, anabledd corfforol/meddyliol, beichiogrwydd neu statws priodasol. Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y weithdrefn hon gan ddefnyddio egwyddorion asesu'r effaith ar gydraddoldeb.

Bydd ystadegau sy'n ymwneud ag ystod oedran, maes y cwricwlwm, rhyw, tarddiad ethnig, anabledd a nifer yr ymweliadau yn cael eu hadrodd gan y Pennaeth Llesiant Dysgu Ychwanegol. Defnyddir y wybodaeth hon i fonitro unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg o fewn y Coleg ac i wneud gwelliannau yn unol ag ymrwymiad y Coleg i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Gweithdrefnau Gweithredol Perthnasoedd Dysgwyr
- Iechyd a Diogelwch
- Diogelu Data
- Bwlio ac Aflonyddu
- Addasrwydd i Astudio
- Camddefnyddio Sylweddau
- Iechyd a Diogelwch
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Diogelu
- Cwynion Myfyrwyr
- Llesiant
- Anghenion Dysgu Ychwanegol

Lleoliad a Mynediad at y Polisi

Mae hwn ar gael ar y wefan ac efallai na fydd yn gyfredol os yw wedi'i argraffu.

Dyddiad cymeradwyo: 14/09/2018	Rheolwr sy'n Gyfrifol: Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant
Cymeradwywyd gan: QSB	Arweinydd Gweithredol: Dirprwy Bennaeth
Dyddiad adolygu: 07/09/2024	Hygyrch i Fyfrwyr: Ydy

Rhif Adolygu:	2
Dyddiad Adolygu	07/09/22
Diwethaf:	
Dyddiad Adolygu Nesaf	07/09/24